Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23

Tachwedd 2021

Cyflwyniad

Mae'r Comisiynydd yn croesawu'r dull agored ac apelgar a wnaed gan Bwyllgorau'r Senedd i ymgynghori ar lywio'r broses o graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-2. Daw'r Gyllideb ar adeg dyngedfennol wrth i ni obeithio symud tuag at adferiad ar ôl y pandemig Covid-19 sy'n anelu at adfer y difrod a wnaed yn ystod y cyfnod, ynghyd â sicrhau ein bod yn adeiladu'n ôl mewn ffordd decach.

Er bod y cynnydd gwariant o Gyllideb Hydref Llywodraeth y DU a'r Adolygiad o Wariant i'w croesawu, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn anelu at fuddsoddi'r cyllid ychwanegol hwn yn y llefydd iawn i sicrhau mynediad gwell at wasanaethau cyhoeddus a chymunedol ac adferiad economaidd sy'n galluogi cyfleoedd a chymorth i bawb.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

1. Yn eich barn chi, beth oedd effaith cyllideb 2021-22 Llywodraeth Cymru gan gynnwys cyllid sy'n gysylltiedig â COVID-19?

Mae'r mwyafrif llethol o gronfeydd ychwanegol a ddarparwyd gan Gyllideb 2021-22 Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â Covid-19 wedi canolbwyntio ar ddelio â'r problemau sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd. Wrth i ni symud tua'r gaeaf a thu hwnt, mae'n bwysig bod y cyllid yn dechrau canolbwyntio mwy ar helpu pobl i adfer o'r pandemig ac edrych tuag at welliannau i wasanaethau ac at ansawdd bywyd pobl yn y dyfodol.

2. Yn eich barn chi, sut dylai blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 newid i ymateb i COVID-19?

Mae'n amlwg y bydd cost barhaus i'r gyllideb Gymreig ac i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru wrth i'r pandemig Covid-19 barhau ac wrth i ni geisio gwella'r niwed a achoswyd yn sgil y pandemig. Wrth i gyllid canlyniadol Barnett ar wariant ar y pandemig grebachu yn 2022-23, bydd angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid digonol yn cael ei ddarparu i alluogi gwasanaethau cyhoeddus i oresgyn ôl-groniadau, yn ogystal â gwneud y newidiadau angenrheidiol i wella cyflenwi a mynediad i'r dyfodol.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:
Josh Hayman, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus
03442 640 670 // joshua.hayman@olderpeoplewales.com

Mae swm sylweddol o arian ychwanegol yn debygol o wneud ei ffordd i'r gwasanaeth iechyd ac mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn gosod disgwyliad gyda byrddau iechyd a byrddau partneriaeth rhanbarthol bod yn rhaid iddyn nhw edrych ar sut maen nhw'n cefnogi pobl hŷn i gadw'n iach ac yn egnïol yn eu cymunedau eu hunain. Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar iechyd corfforol a meddyliol pobl hŷn, gan gynnwys datgyflyru, dirywiad iechyd meddwl ac unigrwydd. Heb weithredu i unioni'r problemau hyn, ni fydd ansawdd bywyd nifer o bobl hŷn yn gwella neu'n parhau i waethygu, a bydd yn arwain at fwy o angen am gymorth gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Mae'r Comisiynydd wedi cyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cymru am fuddsoddi yn ystod cyfnod y gaeaf hwn i gefnogi'r sector gwirfoddol i ddarparu gwasanaethau a gwybodaeth i helpu pobl hŷn ddod yn fwy egnïol yn gorfforol ac ymgysylltu'n gymdeithasol. Er y gwelwyd rhywfaint o arian mewn cyllidebau cyfredol i gefnogi'r rhaglen waith hon, mae'n bwysig bod y mathau hyn o ymyriadau yn cael eu prif ffrydio drwy gydol prosesau comisiynu a bod cyllid ar gael ar gyfer y gwaith ataliol hanfodol hwn sydd nid yn unig yn gwella ansawdd bywyd pobl hŷn ond hefyd yn arwain at arbedion cost sylweddol i'n gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol ledled Cymru yn parhau i wynebu anawsterau o ran recriwtio a chadw staff, cynnydd yn y galw am wasanaethau a chyllidebau sy'n aml yn cyfyngu ar eu gallu i ddarparu gwasanaethau i bawb sydd eu hangen. Bydd angen i'r Gyllideb Ddrafft sicrhau y darperir digon o arian i wasanaethau gofal cymdeithasol i fodloni'r heriau yn sgil y pandemig, tra hefyd yn edrych ar sut i fuddsoddi mewn model gofal cymdeithasol cynaliadwy sy'n mynd i'r afael â dyfodol hirdymor gwasanaethau a sut y telir amdanyn nhw. Mae'n galonogol bod Llywodraeth Cymru wedi atgyfodi ei Grŵp Rhyngweinidogol ar Dalu am Ofal Cymdeithasol, yng ngoleuni'r cyhoeddiadau ar ddyfodol gofal cymdeithasol yn Lloegr, ac mae'n rhaid i'r grŵp hwn weithredu'n gyflym i gyflwyno argymhellion ar gyfer dyfodol gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Bydd diwygio'r system hon yn rhan hanfodol o'n hadferiad o Covid-19, wrth i ni geisio sicrhau ein bod yn symud i'r dyfodol gyda gwasanaethau cyhoeddus sydd mewn gwell sefyllfa i ymdopi â'r heriau sydd o'n blaenau a bod gwersi wedi'u dysgu o'r cyfnod hwn. Mae sicrhau bod yr adferiad hwn yn gweithio i bawb yn rhan bwysig o'r ystyriaethau ar gyfer Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn nesaf a rhaid rhoi ystyriaeth ddyladwy i anghenion ac amgylchiadau penodol pobl hŷn.

Canfu adroddiad y Comisiynydd *Cyflwr y Genedl* fod y cynnydd wrth fynd i'r afael â materion allweddol sy'n effeithio ar fywydau pobl hŷn bellach mewn perygl oherwydd y pandemig ac y bydd iechyd, annibyniaeth ac ansawdd bywyd pobl hŷn yn dioddef heb weithredu priodol ar draws cymdeithas. Canfu'r adroddiad fod pobl hŷn yn cael eu heffeithio'n benodol gan effeithiau economaidd y pandemig, gyda diweithdra'n codi fwyaf ymhlith y rhai 50-64 oed o'i gymharu â grwpiau oedran eraill yn ystod y cyfnod hwn a bod y nifer sy'n hawlio'r Cynllun Cadw Swyddi yn lleihau'n arafach ymhlith y rhai dros 65 oed nag

unrhyw grŵp oedran arall. Ddiwedd Awst 2021, y rhai dros 65 oed oedd yn hawlio'r Cynllun fwyaf, sydd bellach wedi darfod (7% o fenywod, 8% o ddynion, o'i gymharu â 4% a 5% yn y drefn honno ar gyfer cyfanswm y poblogaethau benywaidd a gwrywaidd).[1]

3. Pa mor barod yn ariannol yw eich sefydliad ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23, a sut gall y gyllideb roi mwy o sicrwydd i chi wrth gynllunio a rheoli cyllidebau o ystyried yr anwadalrwydd a'r ansicrwydd parhaus?

Mae'r amserlenni cyfredol ar gyfer gwybodaeth gyllidebol yn rhoi amserlen gyfyngedig i gynllunio'n briodol ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod. Byddai dull mwy hirdymor sy'n edrych ar roi gwybodaeth gyllidebol manylach am sawl blwyddyn i'r dyfodol yn rhoi'r gallu i gynllunio'n well ac felly'n rhoi mwy o sefydlogrwydd i sefydliadau fel ni.

4. O ystyried yr ansicrwydd parhaus a'r amgylchedd cyllido sy'n newid yn gyflym, ydych chi'n credu y dylid gwneud newidiadau i brosesau'r gyllideb a chraffu i sicrhau tryloywder digonol ac atebolrwydd Gweinidogol?

Er mwyn i Gyllideb Llywodraeth Cymru adlewyrchu anghenion a dymuniadau pobl Cymru yn iawn, mae'n rhaid iddo ystyried sut gall y cyhoedd gyfrannu at y broses o bennu'r Gyllideb a'i blaenoriaethau. Dylai cyfleoedd fod ar gael i bobl hŷn, a gweddill y boblogaeth, allu cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau, yn enwedig o ystyried yr effaith sylweddol y mae'r pandemig Covid-19 yn dal i'w chael ar fywydau pobl bob dydd.

Efallai yr hoffai'r Pwyllgor ystyried sut mae'n ymgysylltu â'r cyhoedd fel rhan o'i broses o graffu ar y Gyllideb er mwyn cael cyfraniadau wrth y cyhoedd yn ogystal â gwahodd cyfraniadau gan randdeiliaid allweddol a'r rheini â diddordeb.

5. A yw'r Fframwaith Cyllidol yn adlewyrchu'n ddigonol effaith yr argyfwng iechyd cyhoeddus yng Nghymru o'i gymharu â gwledydd eraill y DU ac ydych chi'n cefnogi cynyddu'r terfynau blynyddol a/neu gyffredinol, £150 miliwn a £1 biliwn yn y drefn honno, i fenthyca cyfalaf cyfredol Llywodraeth Cymru o fewn y Fframwaith hwn?

Mae'n hanfodol bwysig bod y cyllid a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru yn adlewyrchu proffil demograffig gwahanol Cymru yn iawn, ac o ystyried, yn gymesur, y boblogaeth hŷn sydd gan Gymru ar hyn o bryd ac yn parhau i fod yn y dyfodol, rhaid ystyried hyn wrth bennu lefel y cyllid sydd ar gael i Gymru.

Serch hynny, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru edrych ar gyfleoedd i ddefnyddio cyllid o San Steffan i'r eithaf drwy sianeli eraill. Er enghraifft, gall buddsoddiadau cymharol fach mewn

ymgyrchoedd i gynyddu'r nifer sy'n hawlio'r arian mae ganddynt hawl iddo fel Credyd Pensiwn, ddod ag arian y mae dirfawr ei angen i bocedi'r bobl hŷn tlotaf yng Nghymru, tra hefyd yn rhoi hwb i economïau lleol, lle mae pobl hŷn yn debygol o wario'r incwm ychwanegol hwn.

Amcangyfrifodd yr Adran Gwaith a Phensiynau fod 40% o'r rhai sy'n gymwys[2], am Gredyd Pensiwn ddim yn ei hawlio, a allai fod werth cymaint â £214m y flwyddyn i bobl hŷn ac economi Cymru yn ehangach[3]. Yn ogystal â rhoi incwm ychwanegol, mae hawlio Credyd Pensiwn hefyd yn rhoi hawl i chi gael nifer o fathau eraill o gymorth, fel gostyngiadau treth gyngor, gofal deintyddol am ddim a help gyda chostau tai.

Ym mis Tachwedd 2019, gweithiodd y Comisiynydd gyda Trafnidiaeth Cymru i ddosbarthu taflen i annog pobl i hawlio Credyd Pensiwn wrth adnewyddu holl basys bws rhatach newydd, a anfonwyd at bawb dros 60 oed yng Nghymru yn 2019. Gyda chymorth ariannol Llywodraeth Cymru, dosbarthwyd dros 500,000 o daflenni ar draws Cymru. Yn ystod y cyfnod hwn, dangosodd data yr Adran Gwaith a Phensiynau fod nifer y rhai newydd a hawliodd Credyd Pensiwn yng Nghymru **26% yn uwch** o'i gymharu â'r cyfartaledd chwarterol dros y ddwy flynedd flaenorol ac amcangyfrifwyd bod **dros £10,000 yr wythnos** – **dros £500,000 y flwyddyn** – bellach ym mhocedi pobl hŷn a fyddai wedi colli allan fel arall.[4]

Sefydlodd Llywodraeth Cymru hefyd Weithgor Cynyddu Incwm a Hawlio Budd-daliadau gydag aelodaeth traws-sector. Lansiodd y Grŵp Ymgyrch Ymwybyddiaeth Budd-daliadau Lles byr ar draws sianeli amrywiol, a chyfrifwyd bod hynny wedi arwain at **£651,504** o geisiadau ychwanegol yn cael eu hawlio.

Yn ogystal, treialwyd dwy ymgyrch arall sydd wedi'u targedu, un yn canolbwyntio ar gymunedau BAME drwy gyfuno partneriaid mynediad cymunedol sy'n cysylltu â phartneriaid cyngor, a'r peilot arall drwy wasanaethau Cyngor ar Bopeth rhanbarthol gan ganolbwyntio ar wahanol gynulleidfaoedd targed a ymgysylltodd â dros 1440 o bobl dros y peilot chwe mis a chyfrifwyd ei fod wedi cynyddu eu hincwm **£2,468,052** ar draws ystod o geisiadau hawlio.

Gall buddsoddi mewn ymgyrchoedd fel hyn, gyda neges genedlaethol gref ac ymyriadau lleol wedi'u targedu, chwarae rôl bwysig wrth gefnogi Cymru i adfer o'r pandemig Covid-19 a dylai Llywodraeth Cymru ei ystyried ymhellach fel elfen allweddol o'r camau i liniaru tlodi ymhlith pobl hŷn.

Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ddatblygu ymhellach sut mae'n ymgysylltu â rhaglenni a chynlluniau DU-gyfan a rhyngwladol i gael mynediad at gyllid grant neu i ddysgu wrth eraill. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â Her Heneiddio'n Iach yr UKRI, sy'n rhoi cyfleoedd i brosiectau o Gymru wneud cais am arian o gronfa'r DU-gyfan.

Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ymgysylltu â Degawd o Heneiddio'n Iach y Cenhedloedd Unedig, sy'n rhedeg o 2021-30 ac sy'n rhoi cyfle i ddangos y gwaith positif sydd ar droed o ran datblygu cymunedau o blaid pobl hŷn ond hefyd i ddysgu o rannau eraill o'r byd ynglŷn ag ymyriadau effeithiol y gellid eu gweithredu yng Nghymru.

6. Hoffai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar nifer o feysydd penodol wrth graffu ar y gyllideb, a oes gennych unrhyw sylwadau penodol ar unrhyw un o'r meysydd a nodir isod, yn enwedig yng ngoleuni sefyllfa COVID-19 a sut y dylai'r rhain gael eu hadlewyrchu yng nghyllideb 2022-23?

Sut dylid targedu adnoddau i gefnogi adferiad economaidd a pha sectorau yn benodol y mae angen eu blaenoriaethu

Fel y soniwyd yn gynharach yn yr ymateb hwn, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn edrych ar anghenion ac amgylchiadau penodol pobl hŷn wrth ystyried ein hadferiad economaidd ac wrth sicrhau bod dulliau pwrpasol yn cael eu cymryd i gefnogi pobl hŷn i fynd yn ôl i'r gwaith a chynnig cyfleoedd i'r rhai sydd angen ail-sgilio neu ailhyfforddi. Amlygodd adroddiad diweddar y Comisiynydd *Cyflwr y Genedl* er bod 90% o bobl hŷn o'r farn bod ganddynt y sgiliau trosglwyddadwy i symud diwydiant pe byddent yn cael cynnig hyfforddiant, dim ond 35% o'r cyflogwyr a ofynnwyd a fyddai'n barod i gyflogi a chynnig hyfforddiant i rywun dros 55 oed mewn diwydiant newydd.[5]

Mae angen rhoi'r gorau i'r ffordd yma o feddwl a rhaid i ni herio'r gwahaniaethu ar sail oed y mae nifer o weithwyr hŷn yn dal i'w wynebu yn y gweithle yng Nghymru. Mae gan Gymru, fel nifer o genhedloedd eraill, gymdeithas sy'n heneiddio, ac os ydym am lwyddo, mae'n rhaid i ni edrych ar y cyfleoedd sydd ar gael i helpu pobl i aros yn y gwaith yn hirach neu ddychwelyd i'r gwaith drwy gynnig polisïau mwy hyblyg a chyfeillgar i ofalwyr, gan ganolbwyntio mwy ar iechyd a llesiant gweithwyr, a sicrhau bod cyfleoedd hyfforddi, fel prentisiaethau, yn cael eu marchnata'n briodol i weithwyr hŷn i roi hwb i'r niferoedd sy'n mynd amdanynt.

Mae pobl dros 50 oed eisoes yn 35.3% o gyfanswm gweithlu Cymru ac mae'n debygol o gynyddu dros y blynyddoedd a'r degawdau nesaf. Os ydym am gefnogi adferiad economaidd sy'n gweithio i bawb ac sy'n ceisio mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd hirdymor, yna mae'n rhaid i ni symud i ffwrdd o fodelau hen ffasiwn sy'n seiliedig ar 'boblogaeth oed gweithio' sydd ddim yn adlewyrchu'n ddigonol ein statws ar hyn o bryd na'n statws yn y dyfodol ac i sicrhau bod Cymru yn cofleidio gweithwyr hŷn fel rhan annatod a chynyddol o'n gweithlu.

Sut dylid blaenoriaethu adnoddau i fynd i'r afael â'r pwysau sydd i'w deimlo mewn sectorau sydd angen "dal i fyny", fel Iechyd ac Addysg a'r ffordd o ymdrin â gwariant ataliol a sut mae hyn yn cael ei gynrychioli wrth ddyrannu adnoddau

Fel y nodwyd ar dudalen 2, mae'r Comisiynydd wedi cyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cymru i fuddsoddi yn y sectorau cymunedol a gwirfoddol i fynd i'r afael ag effeithiau'r pandemig Covid-19 ar iechyd meddwl a chorfforol pobl hŷn. Mae'r buddsoddiad hwn yn hanfodol, nid yn unig i ailadeiladu hyder pobl a helpu pobl hŷn i ail-ymgysylltu â'u cymunedau, ond hefyd i sicrhau na roddir pwysau ychwanegol ar y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y tymor canolig a'r hirdymor drwy dderbyniadau cynyddol i adrannau brys a'r angen cynyddol am gymorth gofal cymdeithasol statudol.

Ochr yn ochr â'r buddsoddiad hwn, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru a GIG Cymru geisio mynd i'r afael â'r ôl-groniadau o driniaethau dewisol sydd wedi datblygu yn ystod cyfnod y pandemig. Gall y triniaethau a'r gweithdrefnau newid bywyd pobl hŷn ac mae gormod wedi bod yn byw mewn poen gyda symudedd cyfyngedig yn ystod y 18 mis diwethaf. Mae iechyd nifer o'r unigolion sy'n aros am y triniaethau hyn yn debygol o fod wedi gwaethygu yn ystod y cyfnod hwn, ac i rai, gall eisoes fod yn rhy hwyr i'r ymyriadau hyn fod yn effeithiol. Mae'n bwysig y cyfathrebir yn effeithiol â'r rhai sy'n aros am weithdrefnau fel eu bod yn gwybod pryd i ddisgwyl derbyn eu triniaeth a pha gamau y gallan nhw eu cymryd tra'n aros i gynyddu eu hiechyd a'u llesiant i'r eithaf. Mae'r elusen pobl hŷn Independent Age wedi edrych ar y broblem hon yn Lloegr a thanlinellodd bwysigrwydd sicrhau bod pobl yn derbyn cymorth, cyfathrebu a thriniaeth briodol wrth aros am driniaeth. Mae'r adroddiad yn argymell bod y GIG yn ymgysylltu â phobl hŷn i glywed eu lleisiau ac i "*drawsnewid y cyfnod aros o un o bryder i un o rymuso'r claf, paratoi a chymorth holistig*".[6]

Cafodd nifer o raglenni sgrinio canser eu hoedi yn ystod y pandemig, gan gynnwys sgrinio canser y fron [7] ac mae'n bwysig bod buddsoddiad yn cael ei wneud yn yr ymyriadau hyn sy'n achub bywydau er mwyn dal i fyny ag unrhyw apwyntiadau a gollwyd neu a ohiriwyd oherwydd y pandemig.

Fel cynifer o agweddau'r pandemig, ni fydd effaith ôl-groniadau a seibiau mewn triniaeth iechyd a gofal yn cael ei theimlo'n gyfartal ar draws ein cymdeithas. Fel y nodwyd yn adroddiad y Comisiynydd *Cyflwr y Genedl*, mae anghydraddoldebau iechyd sylweddol yn parhau i fod yng Nghymru rhwng y rhai yn yr ardaloedd tlotaf a'r ardaloedd mwyaf cefnog. Mae pobl hŷn yn ein hardaloedd tlotaf eisoes yn debygol o farw'n llawer cynharach na'r rheini mewn ardaloedd mwy cefnog a rhaid i'r gefnogaeth i ddal i fyny â gwasanaethau ganolbwyntio ar y rhai sydd fwyaf mewn angen ac sy'n cael eu heffeithio fwyaf wrth aros am driniaethau neu weithdrefnau.

Pa dystiolaeth sy'n llywio proses Llywodraeth Cymru o bennu blaenoriaethau a dyrannu'r gyllideb

Mae deall profiadau ac amgylchiadau pobl hŷn yng Nghymru yn hollbwysig i nodi a gweithredu polisi cyhoeddus effeithiol. Serch hynny, mae'n digwydd yn rhy aml nad yw data a thystiolaeth yn cael eu casglu neu eu dadansoddi mewn ffordd y gellir eu categoreiddio

fesul oedran neu yn ôl nodweddion croestoriadol pobl hŷn, er enghraifft yn ôl rhywedd, ethnigrwydd neu rywioldeb.

Mae hyn yn arbennig o wir am ddata a thystiolaeth a gasglwyd am brofiadau pobl hŷn o gam-drin, sydd er gwaethaf rhai camau positif, yn parhau i beidio â chael eu deall a'u cydnabod yn llawn. Gall llawer o'r data a gasglwyd am gam-drin, a cham-drin domestig yn arbennig, stopio ar oedran penodol neu bod pawb sy'n 60 neu'n 65 oed yn cael eu grwpio yn yr un categori, sydd ddim yn rhoi dealltwriaeth o sut mae pobl hŷn yn cael eu heffeithio mewn grwpiau oedran gwahanol.

Heb dystiolaeth allweddol am fywydau pobl hŷn, ceir risg na fydd penderfyniadau ynglŷn â phennu blaenoriaethau a dyrannu'r gyllideb yn ystyried anghenion a phrofiadau penodol pobl hŷn ac yn anwybyddu ymyriadau a allai wella ansawdd bywyd pobl hŷn a rhoi cymorth pan fydd ei angen fwyaf arnyn nhw. Mae'r dystiolaeth a'r data hyn hefyd yn bwysig i werthuso a yw ymyriadau a phenderfyniadau yn effeithiol wrth gyflawni eu hamcanion neu a ellid defnyddio cyllid yn well mewn man arall.

Mae'r pandemig Covid-19 wedi effeithio ar y broses o gasglu rhywfaint o'r data hwn, yn enwedig mewn gwasanaethau cymdeithasol a diogelu, lle gwelwyd oedi ar ddechrau'r pandemig ac nid oes unrhyw ddata wedi'i gyhoeddi eto ar gyfer 2019-20 a 2020-21. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau y gweithredir cyn gynted â phosibl er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau hyn o ran dealltwriaeth, naill ai drwy gyhoeddi data sydd ar gael neu ddod o hyd i ffyrdd eraill o ddangos profiadau pobl hŷn yn ystod y 18 mis diwethaf.

[1] HMRC (2021) *Official Statistics: Coronavirus Job Retention Scheme statistics: 7 October 2021*. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistics/coronavirus-job-retention-scheme-statistics-7-october-2021/coronavirus-job-retention-scheme-statistics-7-october-2021#furlough-by-age

[2] Department for Work and Pensions (2020) *Income-related benefits: estimates of take-up: financial year 2018 to 2019*. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistics/income-related-benefits-estimates-of-take-up-financial-year-2018-to-2019/income-related-benefits-estimates-of-take-up-financial-year-2018-to-2019

[3] Independent Age (2020) *Pension Credit: a closer look.* Ar gael yn: https://www.independentage.org/pension-credit-a-closer-look

[4] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2021) *Data newydd sy'n datgelu cynnydd yn nifer y bobl sydd wedi dechrau hawlio Credyd Pensiwn yn ystod ymgyrch y Comisiynydd.* Ar gael yn: https://www.olderpeoplewales.com/en/news/news/21-03-24/New_data_reveals_an_increase_in_the_number_of_new_Pension_Credit_claimants_during_Commissioner_s_campaign.aspx

[5] 55/Redefined (2021) *Shut out, forced out and overlooked Ageism at work: Attitudes on employment over the age of 55*. Ar gael yn: https://www.55redefined.com/drafts/shut-out-forced-out-and-overlooked-an-ageism-report

[6] Independent Age (2021) *Patiently Waiting: Older people's experiences of waiting for surgery.* Ar gael yn: https://www.independentage.org/policy-and-research/patiently-waiting

[7] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2020) *Sgrinio yn ystod Pandemig Coronafeirws – Bron Brawf Cymru.* Ar gael yn: https://phw.nhs.wales/services-and-teams/screening/breast-screening/screening-during-the-coronavirus-pandemic-breast-test-wales/

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gwarchod ac yn hybu hawliau pobl hŷn ledled Cymru, gan graffu a dylanwadu ar amrywiaeth eang o bolisïau ac arferion i wella eu bywydau. Mae'n darparu help a chefnogaeth yn uniongyrchol i bobl hŷn drwy ei thîm gwaith achosion ac mae'n gweithio i rymuso pobl hŷn ac i sicrhau bod eu llais cael ei glywed ac y gweithredir ar hynny. Mae rôl y Comisiynydd yn seiliedig ar gyfres o bwerau cyfreithiol unigryw i'w chefnogi gydag adolygu gwaith cyrff cyhoeddus a'u dal yn atebol lle bo angen.

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu i roi terfyn ar wahaniaethu a rhagfarn ar sail oedran, i atal cam-drin pobl hŷn ac i alluogi i bawb heneiddio'n dda.

Mae'r Comisiynydd eisiau Cymru lle mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, bod eu hawliau'n cael eu cynnal a bod neb yn cael eu gadael ar ôl.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640 670

E-bost: ask@olderpeoplewales.com

Gwefan: www.olderpeoplewales.com

Twitter: @talkolderpeople